

- ◇ Gwahodd teuluoedd i ddod â'u plant i'ch Ysgol Sul. Mae'r Ysgolion Sul yn ceisio gwneud hynny, ond yn aml iawn trwy wahoddiad personol gan ffrindiau a theulu a chymdogion y bydd pobl yn ymateb ac yn dod atom i'r Ysgol Sul. Felly, os gwyddoch am deuluoedd nad ydyn nhw'n dod i'r Ysgol Sul, dywedwch wrthynt fod croeso iddynt yno.

- ◇ Ac yna, cefnogi'r gwaith. Un ffordd syml iawn o wneud hynny yw holi am waith eich Ysgol Sul ac annog yr athrawon a diolch iddynt am eu gwaith caled.

## Cyhoeddiadau

### YR OFALAETH

**Nos Iau, Medi 28:** Cyfarfod Chwarter a Chyfarfod Pregethu Annibynwyr Gogledd Arfon yn Eglwys Emaus (Capel Peniel), Bangor am 7.00 o'r gloch. Pregethir gan y Parchg Ddr Rhodri Glyn, Llansannan.

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Dydd Sul, Hydref 1:** Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd hon yn Oedfa Gymundeb.

### Y mis nesaf - Deiniolen

#### Medi 24

5.00 p.m. - Y Parchg Gwyndaf Jones

#### Hydref 1

3.30 p.m. - Y Gweinidog

#### Hydref 8

5.00 p.m. - Y Parchg Eifion W Williams

**CAPEL COCH A NANT PADARN**  
**Nos Wener, Medi 29:** CIC am 7.00 o'r gloch yng nghwmni criw Coleg y Bala.

**Dydd Sul, Hydref 1:** Gwasanaethir am 10.00 o'r gloch gan Mr Glyn Owen, Llanwnda. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch ac aelodau Parti Bytholwyrdd yn arwain yr oedfa am 5.00 o'r gloch.

### CARMEL

**Dydd Llun, Medi 25:** Te Bach am 2.30 o'r gloch.

**Nos Wener, Medi 29:** Dwylo Prysus am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Hydref 1:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch a gwasanaethir yn yr oedfa Gymundeb am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Hydref 1:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor Lewis, Hen Golwyn.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Hydref 1:** Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

## Y mis nesaf - Llanberis

### Medi 24

10.30 a.m. - Oedfa Deulu

### Hydref 1

10.00 a.m. - Mr Glyn Owen  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Parti Bytholwyrdd

### Hydref 8

10.00 a.m. - Y Gweinidog  
11.15 a.m. - Ysgol Sul  
5.00 p.m. - Y Gweinidog



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 741: 24 Medi, 2017

## Diwedd Crefydd?

Anaml iawn y gwelaf fi unrhyw beth ar y teledu ar fore Sul. Ond wythnos i heddiw, a minnau'n mynd i oedfa erbyn 11 o'r gloch, mi ddigwyddais weld un o raglenni crefyddol y bore. Rhaglen drafod oedd hi, a chan nad oes gen i gof i mi weld yr un hysbyseb rwy'n tybio mai un o raglenni'r BBC ydoedd.

Y cwestiwn a ofynnodd cyflwynydd y rhaglen i'w bum gwestai oedd, 'Ydi crefydd yn marw ym Mhrydain?' Cafwyd trafodaeth fywiog, fel y gellid disgwyl o gofio bod dau o'r cyfranwyr yn Gristnogion ( y naill yn aelod o Eglwys Loegr a'r llall yn Bentecostaliad), un yn Rabbi Iddewig, un yn Foslem, ac un yn anffyddiwr.

Nid syndod oedd clywed yr anffyddiwr yn croesawu pob sôn am ddirywiad y grefydd gyfundrefnol a fu mor ddylanwadol yng ngwledydd Prydain ers cenedlaethau. Roedd yn gwbl hyderus y bydd y dirywiad hwnnw'n parhau; ac yn amlwg ddigon, roedd yn gweld hynny'n beth da.

Nid syndod chwaith oedd clywed nad oedd rhai o'r cyfranwyr eraill yn gofidio'n ormodol am ddirywiad y grefydd gyfundrefnol o gofio mai Cristnogaeth fu honno dros y blynyddoedd. Yn naturiol, i'r Iddew a'r Moslem roedd y lleihad yn nylanwad Cristnogaeth ar y gymdeithas yn ddisgwyliedig yn wyneb twf eu crefyddau hwy o fewn y gymdeithas honno dros y blynyddoedd diwethaf.

I bob pwrpas, trafod y sefyllfa yn Lloegr a wnaed, ac yr oedd tuedd i uniaethu'r grefydd gyfundrefnol draddodiadol yno ag Eglwys Loegr. Wrth gwrs, yr oedd cynrychiolydd yr Eglwys honno'n amddiffyn yr Eglwys, a phwy all ei beio am wneud hynny. Roedd hyd yn oed yn dadlau y dylid diogelu cynrychiolaeth esgobion Eglwys Loegr yn Nhy'r Arglwyddi. Hyd yn oes os dylai crefyddau eraill gael eu cynrychioli yno, meddai, ni ddylid lleihau nifer presennol yr esgobion.

Pwysleisio a wna'i'r Pentecostaliad nad cyflwyno 'crefydd' a wna'i'r eglwysi yr oedd o'n gweinidogaethu iddynt ond cynnig i bobl berthynas real â Duw. I ryw raddau, roedd yn debycach yn hynny o beth i'r Moslem nag i'r un o'r cyfranwyr eraill gan fod hwnnw hefyd yn mynnu mai perthynas â Duw sy'n bwysig, a'r berthynas honno'n llywio'r ffordd y mae pobl yn byw.

Bu'r argyhoeddiad mai perthynas â Duw trwy ffydd yng Nghrist yw'r peth pwysig yn sylfaenol i'n heglwysi anghydfurfiol o'r cychwyn. Ond wrth i'r eglwysi hynny dros y blynyddoedd droi'n sefydliad crefyddol dylanwadol fe gollwyd y pwyslais canolog hwnnw i raddau helaeth iawn. Atgoffwn ein hunain nad adfer sefydliad yw gwaith a chenhadaeth ein heglwysi heddiw ond gwahodd pobl i'r berthynas ryfeddol ac achubol â Duw yng Nghrist sy'n dwyn bywyd i bobl. Nid poblogeiddio crefydd ond bywhau pobl yw ein nod.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm



'Pam, Dduw, y bwriaist ni ymaith am byth? Pam y myga dy ddigofaint yn erbyn defaid dy borfa? Cofia dy gynulleidfa a brynaist gynt, y llwyth a waredaist yn etifeddiaeth iti, a Mynydd Seion lle'r oeddit yn trigo. Cyfeiria dy draed at yr adfeilion bythol; dinistriodd y gelyn bopeth yn y cysegr. Rhuodd dy elynion yng nghanol dy gysegr, a gosod eu harwyddion eu hunain yn arwyddion yno. Y maent wedi malurio, fel coedwigwyr yn chwifio'u bwyceill mewn llwyn o goed ... Cofia, O ARGLWYDD, fel y mae'r gelyn yn gwawdio, a phobl ynfyd yn difrio dy enw. Paid â rhoi dy golomen i'r bwystfilod, nac anghofio bywyd dy drueiniaid am byth. Rho sylw i'th gyfamod, oherwydd y mae cuddfannau'r ddaear yn llawn ac yn gartref i drais. Paid â gadael i'r gorthrymedig droi ymaith yn ddryslud; bydded i'r tlawd a'r anghenus glodfori dy enw. Cyfod, O Dduw, i ddadlau dy achos; cofia fel y mae'r ynfyd yn dy wawdio'n wastad. Paid ag anghofio crechwen dy elynion, a chrochlefain cynyddol dy wrthwynebwy'r' (Salm 74).

## Heddiw

Cynhelir oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r gloch dan ofal y Gweinidog. Cawn groesawu Catrin Hampton, Gweithiwr newydd Cynllun Efe i'r Oedfa Deulu am y tro cyntaf.

Gwasanaethir yn yr oedfa yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Gwyndaf Jones, Bangor.

Gwasanaethir yn Llanllechid am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch.

Gwasanaethir yn yr Oedfa Fedydd yn Nhalybont am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Dymunwn yn dda i Gethin a Hafwen Williams a fydd yn cyflwyno eu merch fach, Enfys i'w bedyddio. Bydd yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch y bore.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

## Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

## Cymdeithas Llanberis

Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol tymor newydd Cymdeithas Undebol Llanberis yn Capel Coch nos Fawrth ddiwethaf.

Croesawyd parti Hogia Bodwrog o Sir Fôn i gynnal y noson. Llywyddwyd gan Mr Gareth Jones. Diolch iddo hefyd am drefnu'r noson, a diolch i bawb a fu'n helpu i baratoi'r lluniaeth.

## Cynllun Efe

Cynhelir Gwasanaeth Comisiynu Catrin Hampton yn Weithiwr Plant, Ieuenctid a Theuluoedd Cynllun Efe yn Capel Coch am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Hydref 23. Bydd yr oedfa yn gyfle i ni ddod at ein gilydd i gyflwyno Catrin a'r gwaith i ofal Duw. Bydd yno gynrychiolwyr o eglwys Caersalem, Caernarfon a Scripture Union Cymru sydd erbyn hyn yn cydweithio â Chynllun Efe i gynnal y swydd hon. Daw rhagor o fanylion yn nes at yr amser ond nodwch y dyddiad ar hyn o bryd.

## CIC

Bydd criw Coleg y Bala yn dod i gynnal noson CIC yn Capel Coch nos Wener, Medi 29, am 7.00 o'r gloch.

Hwn fydd cyfarfod cyntaf tymor newydd CIC, a hwn felly fydd cyfarfod cyntaf Catrin Hampton gyda'r bobl ifanc.

Edrychwn ymlaen i weld pawb unwaith eto. Mae CIC ar gyfer ieuenctid ysgol uwchradd, a byddwn yn falch iawn o weld criw newydd yn dod atom y tymor hwn. Cofiwch annog pobl ifanc i ddod i CIC eleni.

## Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yn Eglwys Emaus, Bangor (yng nghapel Penuel) am 7.00 o'r gloch nos Iau, Medi 28.

Ail ran y cyfarfod fydd y rhan bwysicaf o ddigon, pan fydd y Parchg Ddr Rhodri Glyn, Llansannan yn pregethu. Bydd yn gyfle arbennig i ni fod dan weinidogaeth Rhodri, sy'n weinidog yng ngofalaeth Eglwys Bro Aled ers blwyddyn.

Er mai yng Nghapel Curig a chapel Nant y Benglog y magwyd Rhodri o ddyddiau ysgol uwchradd ymlaen, mae wastad yn braf ei glywed yn sôn am ei fagwrfaf cyn hynny yn Neiniolen a chapel Ebeneser.

Gan fod dwsin o eglwys yn ei ofalaeth, go brin y caiff Rhodri gyfle i bregethu y tu allan i'w gylch ei hun, ac felly dyma gyfle arbennig i ni yn yr ardal hon i wrando arno'n agor Gair Duw. Byddai'n braf gweld rhai ohonoch yno. Un peth a wn i sicrwydd yw y bydd yn werth bod yno.

## Bore Coffi

Cynhelir Bore Coffi er budd yr elusen Macmillan yng nghartref Ann a Gareth Roberts yn Manod, Ffordd Capel Coch, Llanberis fore Gwener, Medi 29.

Bydd croeso i chi alw heibio am banded, rhwng 10.00 a 12.00 o'r gloch.

## Ysgolion Sul

Mae'r Ysgolion Sul wedi ail ddechrau yn ar fore Sul yn Llanberis, Llanllechid a Thalybont wedi gwyllau'r haf. (Talybont am 10.00 o'r gloch; Llanllechid am 10.30; a Llanberis am 11.15.)

Mae'r athrawon yn edrych ymlaen at weld y plant er mwyn medru cyflwyno neges fawr y Beibl am gariad Duw yn Iesu Grist iddynt. Diolchwn i'r athrawon am eu gwaith, gan sylweddoli eu bod yn cyflawni rhan bwysig o genhadaeth ein heglwys trwy gyflwyno gwirioneddau'r Ffydd Gristnogol i'r plant.

Ar ddechrau tymor newydd, gall pawb ohonom gefnogi'r Ysgol Sul mewn sawl ffordd, hyd yn oed os na fuom mewn Ysgol Sul ers blynyddoedd. Dyma rai o'r ffyrdd y medrwn wneud hynny.

◇ Gweddio dros yr Ysgol Sul a'i gwaith. Gweddio dros yr athrawon, iddynt gael nerth a mwynhad wrth ddysgu'r plant. Gweddio dros y plant, iddyn nhw hefyd fwynhau'r Ysgol Sul a chael pob help i weld mor fawr yw Duw ac mor bwysig yw credu yn Iesu Grist a'i ddilyn.